

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Ffordd Osgoi Newbridge,
Bwrdeistref Sirol Wrecsam)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2018

The A483 Trunk Road (Newbridge
Bypass, Wrexham County
Borough) (Temporary Prohibition
of Vehicles) Order 2018

Gwnaed 26 Mawrth 2018
Yn dod i rym 1 Ebrill 2018

Made 26 March 2018
Coming into force 1 April 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A483 Swansea to Manchester Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffordd Osgoi Newbridge, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 1 Ebrill 2018.

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Newbridge Bypass, Wrexham County Borough) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018 and it comes into force on 1 April 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 1 Ebrill 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwahardd

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a elwir yn Ffordd Osgoi Newbridge ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon) hyd at ei chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Halton.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y

26 Mawrth 2018

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A483 Swansea to Manchester Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 1 April 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the length of the trunk road known as Newbridge Bypass in the County Borough of Wrexham that extends from the centre-point of Junction 1 (Ruabon Interchange) to its junction with the northern side of Halton Roundabout.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

26 March 2018

Nina Ley

Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483
(FFORDD OSGOI NEWBRIDGE,
BWRDEISTREF SIROL WRECSAM)
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, wrth Ffordd Osgoi Newbridge, Bwrdeistref Sirol Wrexham.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r A483 rhwng ganolbwynt Cyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon) ac ochr ogleddol Cylchfan Halton.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de o Gyffordd 1 yw i ddilyn yr A539 tua'r gorllewin, y B5605 tua'r de a'r A5 tua'r dwyrain i ailymuno â'r A483 wrth Gylchfan Halton: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol ynghylch ei hyd a'i led, yn dod i rym ar 1 Ebrill 2018 ac yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru (Dewiser: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Dros Dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A483 TRUNK ROAD (NEWBRIDGE
BYPASS, WREXHAM COUNTY BOROUGH)
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)
ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road at Newbridge Bypass, Wrexham County Borough.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding along the length of the A483 between Junction 1 (Ruabon Interchange) and the northern side of Halton Roundabout.

The alternative route for southbound vehicles from Junction 1 is via the westbound A539, southbound B5605 and eastbound A5 to re-join the A483 at Halton Roundabout: vice versa for northbound vehicles.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, is expected to come into force on 1 April 2018 and operate intermittently overnight (19:00 – 06:00 hours) for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government